

Polisi dros dro er mwyn ymateb i ddigwyddiadau diogelu

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
1. Egwyddorion a dull gweithredu	2
2. Rôl AGC	3
3. Rhannu gwybodaeth.....	4
4. Atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol.....	4
5. Atgyfeirio sawl pryder sy'n ymwneud ag un lleoliad	5
6. Ymateb i ymholiadau a ddaw i law gan awdurdod lleol.....	6
7. Penderfynu mynychu cyfarfod strategaeth	6
8. Mynychu cyfarfodydd/cynadleddau diogelu	7
9. Cydweithio â'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrrff gorfodi eraill mewn ymchwiliadau cymhleth	8
10. Uwchgyfeirio pryderon.....	9
11. Delio â honiadau Diogelu ynghylch staff AGC	9
Atodiad 1: Cyflawni ein cyfrifoldebau.....	11
Atodiad 2: Ffurflen atgyfeirio	12

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn perthynas ag arferion diogelu. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen (Mai 2017), mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar godau ymarfer sy'n cynnwys cwblhau archwiliadau diogelu ac mae wedi comisiynu'r broses o ddatblygu cyfarwyddyd ymarfer Cymru gyfan ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, sy'n debygol o fod yn barod yn 2019. Yn sgil hynny, mae'r polisi hwn yn fesur dros dro a chaiff ei adolygu gan ystyried y codau ymarfer a chyfarwyddyd ymarfer Cymru gyfan.

1. Egwyddorion a dull gweithredu

- 1.1 **Cadw pobl yn ddiogel.** Mae sicrhau diogelwch, llesiant a hawliau pobl wrth wraidd ein dull o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth. Rydym yn ceisio sicrhau y caiff y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath eu diogelu'n briodol bob amser.
- 1.2 **Gwrando ar bobl.** Rydym yn gwrando ar bobl sydd wedi derbyn gofal ac yn rhoi cymorth i'w teuluoedd, er mwyn deall eu pryderon a'u dymuniadau.
- 1.3 **Bod yn wylidwrus a rhagweithiol.** Rydym yn wylidwrus ac yn rhagweithiol yn ein dull o ddiogelu, ac yn cydnabod arwyddion bod pobl yn dioddef niwed sylweddol, neu'n wynebu risg o'i ddioddef, ac yn gweithredu arnynt. Rydym yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o esgeulustod, camdriniaeth a cham-fanteisio.
- 1.4 **Ymateb mewn ffordd gymesur.** Rydym yn ymateb i bryderon diogelu posibl mewn ffordd sy'n gymesur i'r risg o niwed a difrifoldeb y risg honno. Rydym yn ystyried ffynhonnell ac ansawdd y wybodaeth sy'n arwain at y pryder.
- 1.5 **Cydweithio'n agos â phartneriaid.** Rydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n rhannu cyfrifoldeb statudol dros ddiogelwch pobl. Rydym hefyd yn cydweithio â darparwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i amddiffyn pobl o bob oedran sy'n wynebu risg rhag cael niwed.
- 1.6 **Arsylwi ar ofynion diogelu data.** Rydym yn deall ac yn rhoi sylw i egwyddorion diogelu data. Wrth rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu, rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni'r gofynion statudol ac sy'n cydymffurfio â'r protocolau rhannu gwybodaeth rhwng AGC a'i hasiantaethau partner.

2. Rôl AGC

- 2.1 Prif rôl AGC, fel rheoleiddiwr gwasanaethau gofal a chymorth, yw sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddiedig yn addas i'w gweithredu, yn cydymffurfio â rheoliadau, ac yn darparu gofal diogel, o ansawdd da nad yw'n amlygu pobl i'r risg o esgeulustod, camdriniaeth a cham-fanteisio.
- 2.2 Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant y bobl sy'n eu defnyddio. Rydym yn gwirio bod gwasanaethau rheoleiddiedig yn cynnal ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn darparu gofal diogel, o ansawdd da ac amddiffyn rheini y maent yn gofalu amdanynt rhag niwed.
- 2.3 Pan fyddwn yn nodi pryder fel rhan o'n gwaith rheoleiddiedig, neu'n cael gwybod neu'n cael ein hysbysu'n ffurfiol am bryder a bod rheswm rhesymol gennym i amau bod plentyn, pobl ifanc neu oedolyn yn dioddef neu'n wynebu risg o esgeulustod, camdriniaeth neu gam-fanteisio, rydym yn atgyfeirio'r pryder at yr awdurdod lleol ar unwaith neu o fewn 24 awr.
- 2.4 Rydym yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol yn ystod camau cyntaf unrhyw ymchwiliad, er mwyn deall unrhyw oblygiadau rheoleiddiol ar gyfer y gwasanaeth dan sylw. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y pryder yn cyflwyno materion ehangach ynglŷn â'r ffordd y caiff y gwasanaeth hwnnw ei gynnal neu'n nodi methiant yn narpariaeth y gofal. Mae'r gwaith o gydweithio yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth, dros y ffôn fel arfer, er mwyn nodi'r angen i AGC fynychu cyfarfodydd strategaeth.
- 2.5 Lle y gellir cyfiawnhau hynny yn sgil goblygiadau rheoleiddiol, rydym yn ceisio mynychu cyfarfodydd strategaeth cychwynnol. Caiff ein presenoldeb a'n cyfraniad ei werthfawrogi. Os na allwn fod yn bresennol, mae'n rhaid i ni ddarparu gwybodaeth berthnasol, egluro ein bwriadau, sicrhau ein bod yn cael ein dadfriffio'n llawn yn dilyn y cyfarfod ac adolygu ein cam gweithredu arfaethedig lle y bo'n briodol.
- 2.6 Rydym yn barod i gynnal arolygiad fel rhan o ymchwiliad ehangach, mewn achosion lle y mae gennym reswm rhesymol dros amau bod methiant mewn gofal, bod y gwasanaeth yn anniogel a bod y rheoliadau wedi'u torri. Rydym yn darparu adborth cynnar i'r awdurdod lleol ar ein canfyddiadau.
- 2.7 Rydym yn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ymchwiliadau asiantaethau eraill ac yn ystyried unrhyw oblygiadau rheoleiddiol sy'n codi. Mewn sefyllfaoedd cymhleth, mae'n briodol i ni fynychu mwy o gyfarfodydd strategaeth. Rydym yn mynychu cynadleddau achosion os bydd pryderon heb eu datrys am ddarparwr.

3. Rhannu gwybodaeth

- 3.1 Rydym yn trin gwybodaeth bersonol a sensitif, mewn perthynas â diogelu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AGC a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u dylunio i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys rheoli cofnodion yn briodol a defnyddio dulliau priodol o drin gwybodaeth.
- 3.2 Pan fyddwn yn trosglwyddo gwybodaeth sensitif sy'n ymwneud â diogelu i asiantaeth partner, rydym yn dilyn prosesau i sicrhau bod y wybodaeth yn cyd-fynd â chwmpas y cytundeb perthnasol i rannu gwybodaeth, ei bod wedi'i labelu â'r marciau diogelwch priodol ac y caiff ei diogelu drwy gydol y broses drosglwyddo.
- 3.3 Caiff y broses o rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd ei chyfiawnhau er budd y cyhoedd fel arfer pan fydd rheswm rhesymol dros gredu bod unigolyn yn dioddef niwed sylweddol, neu'n wynebu risg o'i ddioddef, neu mewn achosion lle y byddai rhannu'r wybodaeth yn helpu i atal unigolyn rhag cael niwed sylweddol.
- 3.4 Byddwn yn rhannu canfyddiadau cynnar o arolygiadau sy'n uniongyrchol berthnasol i bryderon diogelu. Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud hyn cyn cyhoeddi adroddiad drafft. Byddwn wedi rhoi adborth yn ystod yr arolygiad a dylem gyfeirio at unrhyw anghytuno neu sylwadau perthnasol a wnaed gan y rheini sy'n cynnal y gwasanaeth.

4. Atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol

- 4.1 Yr awdurdod lleol yw'r brif asiantaeth sy'n gyfrifol am ymchwilio i bryderon diogelu ac sy'n cydgysylltu unrhyw gyfraniad gan AGC ac asiantaethau eraill. Nod yr awdurdod lleol yw diogelu pobl rhag niwed uniongyrchol, a lleihau'r risg o niwed yn y dyfodol. Mewn achosion lle y caiff trosedd ddifrifol ei hamau, yr heddlu fydd y brif asiantaeth yn aml.
- 4.2 Rydym yn atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol mewn achosion lle y byddwn yn asesu bod rheswm rhesymol i amau camdriniaeth neu esgeulustod neu os bydd risg o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae "rheswm rhesymol" yn golygu bod rhesymau dilys dros gredu rhywbeth.
- 4.3 Rydym yn ystyried ac yn profi rhesymau rhesymol drwy ddilyn ein prosesau cymeradwy i gynnal arolygiadau ac ymateb i bryderon. Rydym yn casglu ac yn asesu tystiolaeth mewn ffordd systematig drwy gydol y prosesau hyn. Mae'r penderfyniadau a'r camau gweithredu dilynol yn gadarn a chânt eu cofnodi.
- 4.4 Rydym yn asesu rheswm rhesymol mewn ffordd gyfrifol a chymesur ac yn arfer disgrisiwn er mwyn osgoi cyflwyno pryderon diangen i awdurdodau lleol. Nid yw gofal gwael yn arwain at gamdriniaeth nac esgeulustod o

reidrwydd ac nid oes angen ei atgyfeirio oni chaiff niwed sylweddol (plant sy'n wynebu risg) neu niwed difrifol (oedolion sy'n wynebu risg) eu hamau neu eu bod yn debygol. Lle byddai o gymorth, mae'n bosibl y byddwn yn trafod pryder â'r awdurdod lleol cyn atgyfeirio yn ffurfiol. Os na fyddwn yn siŵr, byddwn yn atgyfeirio yn ffurfiol bob amser.

- 4.5 Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at ein hasesiad o resymau rhesymol yn cynnwys: natur agored i niwed y rheini sy'n wynebu risg; yr effaith ar eu hiechyd, llesiant a hawliau dynol; cryfder y dystiolaeth. Rydym yn ystyried p'un a yw'r pryder yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol, p'un a yw'n bryder a gaiff ei ailadrodd neu'n un cyffredinol a ph'un a yw'n cynnwys honiad penodol.
- 4.6 Caiff yr angen i atgyfeirio yn ffurfiol ei bennu fesul achos yn unol â deddfwriaeth, egwyddorion, canllawiau ac amgylchiadau unigol. Mae'n bosibl na fydd angen atgyfeirio pryder yn ffurfiol fel y mae, ond gall gwybodaeth sy'n ymddangos o ymholiadau pellach neu arolygiad olygu bod angen ei atgyfeirio'n ddiweddarach.
- 4.7 Rydym yn adolygu'n barhaus ein dealltwriaeth, a'n dull o roi'r prawf rhesymau rhesymol ar waith ac yn rhannu'r hyn a ddysgwn â'r sefydliad drwy hyfforddiant rheolaidd a chanllawiau ysgrifenedig, er mwyn hyrwyddo cysondeb wrth ymarfer. Mae ein canllawiau i staff, a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd, yn cynnig diffiniadau yn seiliedig ar y gyfraith ar gyfer "oedolyn sy'n wynebu risg" a "plentyn sy'n wynebu risg", yn disgrifio'r categorïau o gamdriniaeth ac esgeulustod ac yn darparu enghreifftiau ymarferol o sefyllfaoedd y mae angen eu hatgyfeirio.

5. Atgyfeirio sawl pryder sy'n ymwneud ag un lleoliad

- 5.1 Mae'r gweithdrefnau diogelu oedolion yn ymwneud â phryderon ar gyfer unigolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ar gyfer AGC, mae ein pryderon mwyaf difrifol yn aml yn codi oherwydd achosion o esgeulustod helaeth mewn cartrefi gofal sy'n methu, lle y mae sawl unigolyn yn wynebu risg. O dan yr amgylchiadau hyn, yn hytrach na gwneud sawl atgyfeiriad ar wahân ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud un atgyfeiriad ar gyfer y lleoliad.
- 5.2 Os bydd methiant systemig mewn lleoliad gofal oedolion sy'n golygu bod tri unigolyn neu fwy yn wynebu risg, byddwn yn gwneud un atgyfeiriad ar gyfer y lleoliad. Mewn achosion lle y byddwn yn credu bod llai na thri unigolyn yn wynebu risg, byddwn yn gwneud atgyfeiriadau unigol.
- 5.3 Gan nad yw'r ffurflenni atgyfeirio unigol (e.e. VA1) yn addas ar gyfer atgyfeiriadau lleoliadau, rydym yn defnyddio ffurflen syml lle rydym yn gwneud y canlynol: amlinellu'r rheswm dros y pryder; nodi unrhyw unigolion

sy'n wynebu risg benodol; manylu ar yr elfennau o risg sy'n effeithio ar bob un o'r unigolion hynny.

- 5.4 Yna gall yr awdurdod lleol bennu'r dull a ddefnyddir i ddelio â'r atgyfeiriad, boed hynny drwy ddefnyddio llwybr unigol neu lwybr ar gyfer lleoliadau.
- 5.5 Mae'r gweithdrefnau diogelu plant yn cynnwys system ddiffiniedig ar gyfer ymateb i honiadau o gamdriniaeth broffesiynol, a dylid dilyn y gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r dull gweithredu uchod a'r un ffurflen mewn achosion o fethiannau systemig mewn gwasanaethau plant sy'n golygu bod sawl plentyn yn wynebu risg o gamdriniaeth neu bod plant yn wynebu'r fath risg dro ar ôl tro.

6. Ymateb i ymholiadau a ddaw i law gan awdurdod lleol

- 6.1 Pan ddaw ymholiadau i law, rydym yn eu cofnodi a'u trin fel "pryderon". Yna byddwn yn casglu gwybodaeth ac yn cynnal dadansoddiad yn unol â'n polisi a'n gweithdrefnau er mwyn ymateb i bryderon. Rydym yn ystyried yr anghenraid a'r risg, ac yn penderfynu ar y camau i'w cymryd.
- 6.2 Os bydd y pryder dan sylw yn nodi materion sy'n berthnasol i reoliad, h.y. problemau sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal, yna mae'n debygol y bydd gennym rôl i'w chwarae er mwyn helpu'r awdurdod lleol â'i ymholiadau. Os na fydd y pryder yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal, yna mae'n bosibl na fyddwn yn ymyrryd arno.
- 6.3 Os bydd unrhyw bryder yn nodi pryderon difrifol, systemig neu bryderon a gaiff eu hailadrodd ynglŷn â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal, mae'n debygol y byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad cynnar, yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd diogelu ac yn cyfrannu at y cynllun gweithredu.
- 6.4 Os bydd unrhyw bryder yn nodi risgiau uniongyrchol ac uchel i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn ymateb ar frys ac yn cynnal arolygiad ar unwaith fel arfer er mwyn asesu p'un a oes angen i AGC gymryd camau gweithredu cyfreithiol ar frys. Byddwn hefyd yn cynghori ac yn ymgynghori â'r awdurdod lleol (a'r heddlu os yw'n berthnasol) ynglŷn â'n bwriadau.

7. Penderfynu mynychu cyfarfod strategaeth

- 7.1 Cyn penderfynu p'un a fyddwn yn mynychu cyfarfod strategaeth neu beidio, byddwn yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol er mwyn meithrin dealltwriaeth ragarweiniol o'r materion hyn, ac i benderfynu ar y camau gweithredu i'w cymryd.
- 7.2 Mae ein hamcanion ar gyfer mynychu cyfarfod strategaeth yn cynnwys:
 - trosolwg o'r honiadau ac ymatebion pobl iddynt

- cudd-wybodaeth am ymatebion pobl, yn enwedig y darparwr/rheolwr
- gallu i drafod a chynnwys unrhyw gamau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd gydag asiantaethau eraill
- y cyfle i ddarparu'r wybodaeth berthnasol sydd gennym i'r awdurdod lleol
- y gallu i gefnogi penderfyniadau asiantaethau eraill drwy ddarparu cudd-wybodaeth a dealltwriaeth o rôl AGC.

Os gallwn gyflawni'r amcanion hyn (neu os byddwn eisoes wedi'u cyflawni) heb fod yn bresennol, yna ni roddir cymaint o flaenoriaeth ar bresenoldeb.

7.3 Yn gyffredinol, byddwn yn mynychu cyfarfodydd os bydd un neu fwy o'r canlynol yn gymwys:

- mae'r pryderon yn ddifrifol ac yn nodi bod methiannau difrifol neu systematig yng ngofal y gwasanaeth neu'r ffordd y caiff ei gynnal
- mae'r wybodaeth sydd ar gael yn gymhleth ac yn aneglur
- bydd angen cynnal ymchwiliad cydlynol ac amrywiol
- mae ansicrwydd ymhlith asiantaethau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd ar gael a'r camau gweithredu i'w cymryd

7.4 Yn gyffredinol, ni fyddwn yn mynychu cyfarfodydd os bydd un neu fwy o'r canlynol yn gymwys:

- rydym wedi penderfynu nad yw'r pryderon yn ddifrifol nac yn systemig
- mae cynllun effeithiol eisoes ar waith i reoli peryglon
- rydym yn hyderus yng ngallu'r gwasanaeth i unioni unrhyw ddiffygion.

Os gallwn gyflawni'r amcanion hyn heb i AGC fod yn bresennol, yna ni roddir cymaint o flaenoriaeth ar bresenoldeb.

7.5 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a chael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt ymchwiliad diogelu. Os bydd gwybodaeth ddiweddarach yn awgrymu bod pryderon ynglŷn â gwasanaeth yn fwy sylweddol o gymharu â'r tro cyntaf y cawsant eu cyflwyno, mae'n bosibl y byddwn yn newid ein meddyliau ynglŷn â mynychu cyfarfodydd.

8. Mynychu cyfarfodydd/cynadleddau diogelu

8.1 Fel arfer, caiff cyfarfod ei gynnal i ddod ag ymchwiliad i ben (cyfarfod strategaeth wedi'i aildrefnu i oedolion fel arfer a chynhadledd achosion i blant) ac i gytuno ar gynllun hirdymor i ddiogelu pobl os oes angen. Gall gwybodaeth sy'n deillio o ymchwiliad, ac a gaiff ei chyflwyno yn y cyfarfod, fod yn ddefnyddiol iawn i'n galluogi i ddeall sut y mae gwasanaeth yn

perfformio. Mae'n bosibl y byddwn felly am fynychu'r cyfarfod i ofyn cwestiynau neu i gyflwyno ein canfyddiadau ein hunain i helpu'r gynhadledd.

- 8.2 Yn gyffredinol, rydym yn ceisio mynychu cyfarfodydd diogelu yn yr amgylchiadau canlynol:
- lle y cafwyd ymchwiliad i fethiant difrifol mewn gofal
 - lle yr hoffem ddeall neu gwestiynu canfyddiadau ymchwiliad
 - lle y mae'r methiant wedi bod yn systemig
 - lle y mae'n debygol bod rheoliad wedi'i dorri
 - pan fyddwn yn cymryd neu'n ystyried camau gorfodi.
- 8.3 Yn gyffredinol, nid ydym yn mynychu cyfarfodydd lle nad yw'r risgiau wedi'u cadarnhau neu lle rydym yn fodlon â'r ffaith bod y darparwr wedi cymryd camau gweithredu cadarnhaol.
- 8.4 Byddwn yn cyfrannu'n rhagweithiol at gyfarfodydd, fel gweithwyr proffesiynol ac fel rheoleiddiwr ac yn barod i gwestiynu canfyddiadau neu gynigion os na fyddwn o'r farn eu bod yn gywir.
- 8.5 Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar gyfer yr argymhellion a wneir i ddarparwyr yn ein harolygiadau.

9. Cydweithio â'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrrff gorfodi eraill mewn ymchwiliadau cymhleth

- 9.1 Caiff y prosesau gorfodi'r gyfraith eu rheoli ar wahân i'r prosesau diogelu mewn ymchwiliadau cymhleth lle y caiff achosion troseddol eu cynnal. Dylid creu cysylltiad rhwng y ddwy gyfres o brosesau, ond mae angen rheoli'r risgiau parhaus i ddiogelwch, llesiant a hawliau dynol pobl o hyd.
- 9.2 AGC a'r heddlu yw'r llofnodwyr ar gyfer Protocol Marwolaeth yn Gysylltiedig â Gwaith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r protocol yn nodi'r egwyddorion a'r prosesau yn fras er mwyn cynnal ymchwiliadau o'r fath ac yn trafod y cysyniad o "uchafiaeth", lle y mae un asiantaeth (fel arfer yr asiantaeth sydd â'r diddordeb/pwerau gorfodi mwyaf) yn arwain y gwaith o reoli, cydlynu ac adolygu'r ymchwiliad yn rheolaidd. Mae'r ystyriaethau cynllunio yn cynnwys cymorth i ddioddefwyr a pherthnasau, cysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron a delio â'r cyfryngau.
- 9.3 Dylai AGC bob amser ystyried y cyfle i gydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn ystod y camau o ddod o hyd i ffeithiau ac ymchwilio, er enghraifft casglu tystiolaeth ar y cyd a chyfweld â thystion.

10. Uwchgyfeirio pryderon

- 10.1 Mae'r broses o uwchgyfeirio pryderon, lle y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn cydweithio â'r darparwr i wella gwasanaeth gofal sy'n wynebu risg o fethu, yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd a gaiff eu cynnal ochr yn ochr â gweithdrefnau diogelu yn aml. Gall y ddwy broses orgyffwrdd yn sylweddol gan eu bod yn cynnwys rheoli risgiau cynhenid mewn gwasanaethau gofal sy'n methu.
- 10.2 Mae gwaith gorfodi a bwriadau AGC yn berthnasol i'r asiantaethau sy'n arwain y broses o uwchgyfeirio pryderon. Fodd bynnag, gall y rolau a'r amcanion amrywio pan fydd AGC yn mynychu cyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon. Nid oes angen i ni fynychu cyfarfodydd o'r fath os byddwn eisoes yn sicr o gamau gweithredu'r asiantaethau eraill a'r ffordd y maent yn asesu'r gwasanaeth gofal dan sylw a bod yr awdurdod lleol yn glir ynglŷn â chanlyniad ein gweithgaredd, ein prosesau a'n bwriadau.
- 10.3 Ar y llaw arall, os oes angen cyflawni buddiannau penodol, gwneud cyfraniadau penodol neu os byddai'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi ein presenoldeb neu fod angen cydlynu gweithgaredd yn dilyn penderfyniad i gau neu ohirio gwasanaeth, yna mae'n bosibl y byddwn yn dewis mynychu'r cyfarfodydd, neu eu mynychu'n rhannol.
- 10.4 Pan fydd gwasanaeth gofal yn methu, gellir gwneud sawl atgyfeiriad diogelu dilynol sy'n gorgyffwrdd yn ogystal ag ymchwiliadau a chyfarfodydd er mwyn uwchgyfeirio pryderon. Gall hyn fod yn faich mawr ar adnoddau'r holl asiantaethau ac arwain at gost o gael AGGCC ar safle'r gwasanaethau gofal dan sylw. Gall fod yn well trafod adolygiad cyfnodol (e.e. misol) o bryderon diogelu â'r awdurdod lleol mewn sefyllfaoedd o'r fath, a fydd yn cynnwys cyfarfodydd strategaeth newydd ac yn rhoi diweddariadau ar bryderon sydd eisoes yn bodoli.

11. Delio â honiadau Diogelu ynghylch staff AGC

- 11.1 Mae gan yr holl staff ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw ddatgeliadau neu bryderon sydd ganddynt o bosibl ynglŷn â diogelwch a llesiant plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- 11.2 Gellir gwneud honiadau o gamdriniaeth yn erbyn cyflogai unigol naill ai yn ei fywyd preifat neu yn y gwaith, er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn arolygiad.
- 11.3 Mae gan AGC Swyddogion Arweiniol dynodedig (arweinwyr oedolion a phlant) ar gyfer diogelu. Dylid atgyfeirio honiadau diogelu ynglŷn ag aelod o staff at un o'r Swyddogion Arweiniol bob amser, yn ogystal â rheolwr llinell y person.

- 11.4 Nid rôl AGC yw ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â phryderon diogelu na chasglu tystiolaeth amdanynt ac ni ddylai'r rheolwyr geisio gwneud hynny.
- 11.5 Mewn achos o honiad o gamdriniaeth yn erbyn cyflogai unigol yn ei fywyd proffesiynol neu breifat, bydd y swyddog arweiniol dynodedig yn sicrhau y caiff ei atgyfeirio i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol priodol.
- 11.6 Bydd y swyddog arweiniol dynodedig hefyd yn rhoi gwybod i'r aelod perthnasol o'r uwch dîm rheoli (y pennaeth) a'r swyddog cyswllt adnoddau dynol. Dylid ystyried y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn atal mynediad at blant neu oedolion sy'n agored i niwed wrth aros am ganlyniadau ymholiadau / ymchwiliadau diogelu.

Atodiad 1: Cyflawni ein cyfrifoldebau

Swyddogion cyfrifol

Er mwyn sicrhau bod AGC yn cyflawni ei dyletswyddau yn briodol, mae'n cynnwys y canlynol:

- ☐ Pennaeth dynodedig, sy'n gyfrifol am gynnal trosolwg strategol o'r holl agweddau ar ddiogelu yn AGC
- ☐ Swyddog Arweiniol dynodedig (un ar gyfer oedolion ac un ar gyfer plant), sydd â chyfrifoldebau gweithredol dros ddiogelu, gan gynnwys delio â honiadau yn erbyn staff, rhoi cyngor ac arweiniad i staff AGC a chynnal trosolwg o'r cyngor a'r canllawiau i gynnal ymchwiliad o faterion sy'n ymwneud â diogelu
- ☐ Gweithgor diogelu yn AGC i roi arweiniad a chynnal trosolwg

Bydd y Pennaeth dynodedig yn gwneud y canlynol

- ☐ Sicrhau y caiff polisïau a chanllawiau AGC ar reoli ac ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â diogelu eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a'u diweddarau'n rheolaidd.
- ☐ Sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau a chanllawiau AGC a'u bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran nodi'r arwyddion fod risg i lesiant neu ddiogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed o bosibl a gweithredu arnynt a'u bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon
- ☐ Sicrhau y caiff yr hyfforddiant ar ddiogelu ei ddarparu'n effeithiol
- ☐ Cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn ymateb i fentrau cenedlaethol a lleol a datblygu strategaethau sydd wedi'u dylunio i atal neu leihau'r perygl o gamdriniaeth
- ☐ Monitro cyfraniad staff AGC mewn ymchwiliadau diogelu
- ☐ Rhoi gwybod i Brif Arolygydd AGC am unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed gan gynnwys unrhyw gyngor y mae angen ei roi i gyrff statudol eraill, er enghraifft Llywodraeth Cymru
- ☐ Cynnal crynodeb parhaus a gwerthuso materion perthnasol ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys rhoi gweithdrefnau diogelu AGC ar waith, dadansoddi ymholiadau ac atgyfeiriadau a wneir i Estyn.

Atodiad 2: Ffurflen atgyfeirio

Ffurflen AGC

Ffurflen atgyfeirio oedolion/plant sy'n wynebu risg mewn lleoliadau

Yn gwbl gyfrinachol: anfon yn ddiogel

Enw a chyfeiriad y lleoliad gofal:	
Rheolwr:	Rhif ffôn:
Enw'r arolygydd:	
E-bost:	Rhif ffôn:
Dyddiad yr atgyfeiriad:	
Cefndir y gwasanaeth:	
Cefndir a natur y pryderon diogelu:	
A yw'r darparwr/rheolwr yn ymwybodol o'r atgyfeiriad hwn: Y/N Sylwadau:	
Y camau gweithredu y mae AGC yn bwriadu eu cymryd:	
Sylwadau; (gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu rydych yn gofyn i'r awdurdod lleol eu hystyried, gan gynnwys asiantaethau eraill dan sylw)	

Os bydd unigolion yn/wedi wynebu camdriniaeth neu esgeulustod penodol a'i fod yn gymwys i gael ymchwiliad unigol, cwblhewch y manylion isod a **gwnewch yn siŵr y caiff pob unigolyn ei gofnodi ar daflenni ar wahân**. Bydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol i reoli data personol.